

Therapi galwedigaethol a gofal newyddenedigol yng Nghymru

Caiff un ym mhob saith o fabanod a gaiff eu geni yn y Deyrnas Unedig eu derbyn i uned newyddenedigol bob blwyddyn oherwydd iddynt gael eu geni cyn 37 wythnos o feichiogrwydd (cyn amser) neu eu bod yn wael pan gawsant eu cario i'w cyfnod llawn.

Nifer fach o therapyddion galwedigaethol sy'n gweithio mewn gwasanaethau newyddenedigol – ar hyn o bryd pedwar therapydd galwedigaethol newyddenedigol sydd gennym yng Nghymru – ac anaml mae swyddi yn rhai llawn-amser. Felly mae'n rhaid i ni ddefnyddio ein hadnoddau yn ddoeth i sicrhau'r budd mwyaf ar gyfer babanod a'u teuluoedd.



Yr hyn a wnawn

Mae therapyddion galwedigaethol yn hyrwyddo niwroddatblygiad babanod sydd angen gofal newyddenedigol. Darparwn ofal sy'n briodol i'w datblygiad, gan helpu babanod i gysgu, bwydo, chwarae, rhyngweithio a rheoleiddio systemau eu cyrff.

Ròl allweddol i therapyddion galwedigaethol yw galluogi rhieni a gofalwyr i ofalu am a meithrin datblygiad eu baban. Rydym yn eu helpu i ddysgu am ac ymateb i arwyddion ymddygiad a gofid a ddangosir gan eu babanod. Cefnogwn rieni i wneud gweithgareddau tebyg i setlo a dal eu baban, eu hymolchi a'u helpu i ymdopi gyda thriniaethau meddygol. Rydym hefyd yn helpu babanod a gofalwyr gyda gweithgareddau 'cudd' tebyg i wneud penderfyniadau a dehongli ymddygiad eu baban. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae galluogi rhieni a gofalwyr i ffurfio cwlwm gyda'u babanod a gofalu amdanynt yn hanfodol ar gyfer datblygiad y baban a lles y rhieni.

Mae therapyddion galwedigaethol hefyd yn rhoi canllawiau rhagweld i hyrwyddo datblygiad synhwyrdd, echddygol, sylw, rheoleiddio a chwarae babanod yn ystod eu triniaeth newyddenedigol mewn ysbyty ac i baratoi ar gyfer iddynt fynd adre.

Mwy o wybodaeth am therapi galwedigaethol a gofal newyddenedigol
E-ddysgu newydd am therapi galwedigaethol mewn gofal newyddenedigol - RCOT
[Therapi galwedigaethol mewn gwasanaethau newyddenedigol ac ymyriad cynnar - RCOT](#)

